

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW
7:30YH 4^{YDD} MAI 2022
YN FESTRI PANDY TUDUR

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

1.2 Presennol: Diane Roberts (DR), Ann Vaughan (AV), R. Emlyn Williams (REW), Gwydion Jones (GJ), Gwynfor Davies (GD) & Einir Williams (EW)

1.3 Ymddiheuriadau: Garffild Lloyd Lewis (GLL) & Mark Davies (MD)

1.4 Absennol: Gwyn Williams (GW)

Ymddiheurodd CR fod y cyfarfod oedd i fod ei gael ei gynnal yr wythnos diwethaf wedi ei ohirio yn fyr rybydd oherwydd nad oedd digon o gynghorwyr yn gallu mynychu.

2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

*AV yn datgan diddordeb cyn trafod 6.3 isod.

3 COFNODION I'W GWIRO 30^{AIN} MAWRTH 2022

Cynnigwyd yn gywir gan REW ac eilwyd gan DR.

4 MATERION YN CODI

CR yn dal i aros am bris gan Kevin Roberts ar gyfer y gwaith.

Gofynnodd CR os oedd y Cyngor am ofalu am drwsio'r tô ar hen siop Llangernyw. Cynghorwyr yn gytun nad cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned yw'r adeilad felly y buasai trwsio yn gosod cysail. CR am gysylltu â'r perchennog i nodi fod angen gwneud y tô yn saff.

REW heb gael pris am glurio'r glaswellt gan Dei Evans.

GJ wedi bod yn edrych ar y gwaith ger Allt Cefn Coch, dŵr bellach wedi ei atal.

CR yn adrodd fod y cais ynglyn â Brook House wedi ei wrthod gan y Cyngor Sir. Diolchodd CR i'r cynghorwyr fuodd yn weithgar ynglyn â'r mater.

DR heb gael dim byd gan Un Llais ynglyn â'r Côt Ymddygiad. DR am ofyn i Mel eto am hwn.

5 CEISIADAU CYNLLUNIO

Dim ceisiadau.

6 MATERION Y CYNGOR

6.1 DR wedi gwneud ymholiadau efo clerod eraill a wedi cael gwybod fod cwmni Zurich yn boblogaidd ar gyfer yr yswiriant. Roedd hi wedi cysylltu efo Zurich, ond ddim wedi gallu siarad efo neb i drafod.

AV wedi gyrru rhestr asedau'r cyngor yn Llangernyw i EW. Rhestrodd REW asedau Gwytherin. Cododd DR fod rhestr ar hen gyfrifiadur y Cyngor. Yn dilyn hyfforddiant, EW yn atgoffa fod angen rhestru a nodi gwerthoedd yr asedau yn yr adroddiad blynyddol. Trafodaeth fod angen prisio'r asedau. REW yn codi y dylsai Un Llais awgrymu cwmnïau sydd yn gallu cynnig yswiriant. DR am wneud ymholiadau mewn cyfarfod Un Llais wythnos nesaf. Aros am ohebiaeth gan y cwmni yswiriant ynglyn ac adnewyddu, EW am yrru hwn ymlaen i'r Cynghorwyr unwaith y bydd wedi ei dderbyn.

6.2 CR wedi gyrru ebost ymlaen i'r Cynghorwyr yn ystod mis Ebrill fod eiddo i Cartrefi Conwy ym Mhandy Tudur am gael ei werthu. Cododd DR ei bod yn ymddangos taw rhestr Cartrefi

Conwy yn unig sydd yn cael ei gysidro. EW yn sôn fod y mater yn codi pryder fod tŷ arall yn y pentref yn cael ei werthu yn fuan ar ôl i'r tŷ arall ei werthu'n ddiweddar. Nid oes sôn yn yr ebost fod costau adnewyddu yn broblem y tro hwn. DR yn gofyn os oes modd i Cartrefi Conwy anfon hysbyseb rhagofn y buasai person ifanc am rentu. EW yn cynnig gofyn beth yw'r diffiniad o restr lleol, pryder fod Cartefi Conwy yn gwerthu'r tai felly'n ei gwneud yn anoddach i bobl ifanc rentu tai yn eu hardaloedd cynefinol. AV yn gofyn os yw'r tŷ i fyny i safon ynglyn a'r ddeddf newydd ar gyfer rhentu. Cododd DR fod angen gwneud yn siwr fod amod ar y gwerthiant nad yw'n cael ei droi'n dŷ gwyliau. GD yn cynnig ymateb fod y cyngor yn pryderu fod gwerthu'r tai yma'n difrodi cymunedau gwledig. CR am ymateb i'r ebost.

- 6.3** *AV yn datgan diddordeb a ddim yn cymeryd rhan am y mater yma, pawb yn hapus iddi beidio gadael yr ystafell. EW wedi cysylltu efo'r cyfrifydd ar ôl cael y tabl cyflogau gan DR (a dderbyniodd gan Un Llais), wedi cael cadarnhad fod y raddfa cyflog angen wedi codi o £9.46 i £9.62 ers Ebrill 2021, trafodaeth fod y raddfa nesaf i fyny yn £9.82. GJ yn cynnig codi'r cyflog i £9.82, REW yn eilio. Penderfynwyd fod ôl daliad i Enlli o Ebrill 2021 am 52.5 awr ar raddfa £9.82 yn £18.90. EW am gysylltu efo'r cyfrifydd i drefnu. EW yn codi fod angen trafod y mater nesaf yng nghyfarfod mis Mawrth 2023 oherwydd fod y raddfa yn gael ei chyhoeddi ym mis Mawrth.
- 6.4** DR heb gael y rhestr gan Mel o Un Llais, am ofyn amdano eto wythnos nesaf. AV yn adrodd fod y fersiwn ddiweddaraf ar wefan y Cyngor dyddiedig 2016. EW yn trafod gohebiaeth gan arbennigwyr coed fod y llywodraeth yn trafod sefydlu coedlanau cymunedol newydd. Trafod fferm sydd wedi ei gwerthu yn ddiweddar yn ne Cymru, cwmni mawr wedi prynu tir fferm i blannu coed. Mater sensitif ynglyn a defnyddio tir i wrth gyfrif carbon cwmnïau mawr. Yn dilyn yr uchod, AV wedi siarad efo Woodland Trust yn dilyn trafodaeth cael coed ar gyfer clawdd y fynwent. Soniodd fod angen gwneud cais rwan i'r plant ysgol blannu ym mis Tachwedd.
- 6.5** AV yn gofyn os yw'r Cyngor am blannu'r planhigion yn y tybiau eleni, cynghorwyr yn gytun. AV i ofalu.
- 6.6** Sgip yn parhau i ddod i Llangernyw yn fisol. EW i ofalu am archebu sgipiau i Pandy Tudur a Gwytherin ar gyfer diwedd mis Mai/dechrau Mehefin.

DR wedi paratoi dogfen gwariant Cyngor a wedi rhoi copi i bawb yn y cyfarfod, i'w drafod mis nesaf. Diolchwyd i DR am baratoi'r ddogfen.

7 ADRODDIAD CYNGHORYDD SIR

7.1 Adroddiad wedi ei yrru drwy ebost i'r Cynghorwyr dyddiedig 8^{fed} Ebrill 2022.

Pawb yn siomedig nad oedd GLL wedi mynychu ei gyfarfod olaf cyn iddo orffen fel cynghorydd sir. DR yn cynnig gyrru llythyr i ddiolch i GLL am ei waith fel Cynghorydd ar ran y Cyngor Cymuned. CR i ofalu.

8 BILIAU

8.1 Enlli: £148.33, cytunwyd i dalu.

8.2 Dei Evans , £450, cytunwyd i dalu.

8.3 AV £60.86 am flodau drafodwyd yn 6.5 uchod, cytunwyd i dalu.

8.4 Cyfrifydd am waith cyflog 2021-2022 £120, cytunwyd i dalu.

8.5 Dŵr Cymru am ddŵr mynwent Llangernyw £13.85, cytunwyd i dalu.

Nododd CR nad oedd dŵr yn dod drwy'r tap yn y fynwent, wedi cysylltu efo Dŵr Cymru i'w hysbysu ond heb glywed dim byd. CR am gysylltu eto.

9 MATERION LLEOL

Croesawodd CR Non Davies i'r cyfarfod. Soniodd Non Davies fod disgwyliad fod Bute Energy yn cyfarfod efo'r Cyngor Cymuned 25^{ain} Mai 2022. Non Davies am symud ymlaen mewn ffordd adeiladol ac am gadw'r ddesgl yn wastad.

Eglurodd CR nad yw'r mater o Bute Energy wedi cael ei roi ar yr agenda heno oherwydd newydd gael cadarnhad gan Bute Energy eu bod am fynychu'r cyfarfod ar 25^{ain} Mai yr oedd. EW am drefnu cyfieithydd ar y pryd ar gyfer y cyfarfod hwnw.

REW yn cynnig fod angen i'r aelodau seneddol gyfarfod efo'r cyngor ynglyn â'r mater yma.

CR ar ei wyliau tan 1^{af} Mehefin felly angen is-gadeirydd ar gyfer cyfarfodydd cyn hynnu.

AV yn codi fod angen i gyfarfod blynyddol gael ei gynnal o fewn 14 diwrnod o dydd Llun nesaf, cyn y 21^{ain} Mai, penderfynwyd cyfarfod 18^{fed} Mai yng Ngwytherin, EW yn cynnig cadeirio'r cyfarfod yma yn absenoldeb CR. AV yn cynnig gwahodd y cynghorydd sir newydd i'r cyfarfod yma. EW am wahodd y cynghorydd newydd. EW yn ategu o fewn 35 diwrnod o'r cyfarfod blynyddol, angen cyfethol 2 gynghorydd newydd.

GD yn atgoffa'r cynghorwyr fydd swyddogion newydd yn cael eu hethol yn y cyfarfod blynyddol ar 18^{fed} Mai. DR yn cynnig gofyn i Un Llais am arweiniad mewn achos o cael trafferth llenwi swyddogaethau, pawb yn gytun i DR i wneud ymholiadau ac adrodd yn ôl i'r cynghorwyr.

EW yn cynnig cadw'r cyfarfod ar 25^{ain} Mai fel mae'n sefyll, ond bod risg na fydd cadeirydd ar gael.

EW wedi rhoi hysbysebion am ddyfnbrisiau ar y wefan, dim ymateb wedi dod i law. Wedi cysylltu efo ProArb ynglyn â'r goeden, wedi gwneud ymholiadau efo Cyngor Conwy. Am gysylltu efo'r person awgrymwyd ganddynt.

Wedi cael sgwrs efo GJ yn ddiweddar a wedi trafod y posibilrwydd o drefnu is-bwyllgor i hysbysebu swydd clerck. EW & GJ yn hapus i drefnu, CR yn hapus i ymuno hefyd. Trafodaeth am ystyried gofyn i glerc Eglwysbach ymgymryd â'r swydd.

DR allt Waterloo, wedi cysylltu efo'r Cyngor Sir yn gofyn pam fod y ffordd yn cau. AV wedi gwneud ymholiadau efo'r Cyngor Sir hefyd ac wedi cael gwybod fod y ffordd yn cau 3^{ydd} – 6^{ed} Mai i wneud asesiad o'r gwaith sydd angen ei wneud ac yna bydd y gwaith yn cael ei wneud o fewn yr 18 mis ac yn cau dros dro tra fydd y gwaith yn cael ei wneud.

Cododd DR y mater o or-yrru drwy Llangernyw. DR wedi bod yn monitro'r sefyllfa yn y pentref ac yn flin iawn fod pobl dal ddim yn cymeryd sylw o'r arwyddion 20mya. Adroddodd ei bod wedi bod sawl tro ger y ffordd gyda arwydd yn gofyn i bobl arafu.

Gofyn eto am osod goleuadau'n fflachio yn y pentref. Pryder mawr gan drigolion fod llawer o blant yn y pentref a fod gor-yrru'n eu peryglu pan yn chwarae ac yn croesi'r ffordd. Adroddod fod y brifathrawes wedi ysgrifennu at rieni yn gofyn iddynt beidio pigo eu plant fynny yn Glan Collen ac yn eu hatgoffa o'r trefniadau, ond fod y rhieni yn anwybyddu'r cais.

DR wedi ebostio'r ysgol yn tynnu sylw at y mater. Gofyn i'r Cyngor Cymuned ysgrifennu at yr ysgol yn nodi fod dealltwriaeth fod llythyr wedi ei yrru at rieni. GD yn cynnig yn ehanach fod angen edrych ar ddiogelwch y plant pan yn cael eu casglu o'r maes parcio.

GD yn ategu fod rhywun arall wedi codi'r mater ond eu bod yn teimlo na'r rheswm fod rhieni yn mynd i Glan Collen yw oherwydd fod maes parcio'r ysgol yn llawn. Y person yma wedi sôn wrth GD ei bod wedi cysylltu efo Mrs Green yn gofyn os oedd llythyr wedi ei yrru fel uchod, yr ateb y cafodd oedd nad oedd llythyr wedi ei yrru. Trafodaeth efallai fod angen i'r ysgol ail-edrych ar y sefyllfa codi plant. Cododd y byddai cyfarfod rhwng yr Ysgol, Cyngor Sir a'r Cyngor Cymuned i drafod y mater i edrych ar ffordd ymlaen yn fuddiol. Cododd EW y

buasai'n syniad i'r Cyngor osod arwyddion preswylwyr yn unig yn Glan Collen. Angen ethol cynghorwyr i gynrychioli'r Cyngor Cymuned ar bwyllgor Llywodraethwyr yr Ysgol. Diolch i REW am fynd a'r ffurfleni etholiad i'r Cyngor Sir.

AV yn tynnu sylw at erthygl diweddar yn y Daily Post ynglyn â chamdriniaeth ar y wê yn atal pobl rhag ymgeisio i fod yn gynghorydd. Adroddodd DR ei bod hithau hefyd wedi darllen yr erthygl hefyd. Atgoffodd AV y cynghorwyr am sefyllfa debyg iawn yng Nghyngor Cymuned Bro Cernyw yn y gorffennol agos pan dderbyniodd gynghorwyr ohebiaeth cas ar y wê gan aelod o'r cyhoedd. Yn dilyn y sefyllfa honno, AV am nodi fod cynnwys yr erthygl wedi atgoffa na fydd cynghorwyr yn cael dioddef unrhyw gamdriniaeth fel aelod o'r cyngor a buasai unrhyw achos o'r fath yn cael ei ddwyn i sylw'r heddlu.

REW wedi bod yn yr archifdy yng Nghonwy yn gwneud ymholiadau os fuasent yn derbyn dogfennau'r cyngor fel drafodwyd mewn cyfarfodydd blaenorol. Pawb yn gytun i REW fynd a'r eitemau o'r cwprdd.

Wedi bod ar daith gerdded ar hyd Llwybr y Pererinion yn ddiweddar, llawer o waith adeiladu yn Bryn Hafod heb ganiatad cynllunio, sied yn cael ei hadeiladu ac adeiladau allanol yn cael eu hadnewyddu a 2 garafan static yno. Wedi derbyn cwynion gan aelodau'r cyhoedd.

GD arwyddion ffordd wedi cau ger waelod Allt Cefn Coch, ategodd Non Davies fod yr arwyddion wedi eu rhoi yn y lle anghywir ond fod hyn bellach wedi ei gywiro.

Hysbysu fod gwaith tarmacio ger Wenlli yn cael ei wneud wythnos nesaf.

Dymunodd GD yn dda i'r cynghorwyr ar gyfer y tymor newydd.

Diolchodd CR ar ran y Cyngor i GD am ei holl waith fel cynghorydd ar hyd y blynyddoedd.

10 CYFARFOD NESAF

Cyfarfod Blynyddol 18^{fed} Mai 2022 yng Nghanolfan Gwytherin

Cyfarfod yn dod i ben 10yh

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan